

Rebecca Evans AS/MS  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS  
Chadeirydd, y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

5 Ebrill 2022

Annwyl Peredur,

Ymhellach i fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, ysgrifennaf atoch i roi diweddariad bras ynghylch y trafodaethau. Wedi'r cyfarfod, cyhoeddwyd datganiad yn ogystal: [Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 21 Mawrth 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/inter-departmental-committee-meeting-21-march-2022)

Roeddwn i yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â Simon Clarke, Aelod o Senedd y DU a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, Conor Murphy, Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol a Gweinidog Cyllid Gogledd Iwerddon a Kate Forbes, Aelod o Senedd yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Economi, Llywodraeth yr Alban.

Roedd ffocws naturiol ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ei Datganiad y Gwanwyn, er ni chafwyd llawer o eglurder pellach ar y pryd. Rhoddais bwysau ar y Prif Ysgrifennydd i roi ymateb ynghylch cefnogaeth ar gyfer y rheini y byddant yn cael eu niweidio fwyaf gan yr argyfwng costau byw, yn enwedig ar gyfer yr unigolion hynny sydd ar fudd-daliadau lles. Mae manylion ynghylch effaith Datganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU ar Gymru wedi'u nodi yn fy Natganiad Ysgrifenedig: [Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb Llywodraeth Cymru i Ddatganiad y Gwanwyn Llywodraeth y DU 2022 \(23 Mawrth 2022\) | LLYW.CYMRU](https://www.gov.uk/government/news/inter-departmental-committee-meeting-21-march-2022)

Arweiniais eitem ar yr agenda ynghylch prosesau cyllidebu a chyfathrebu Llywodraethau Datganoledig, gan roi enghreifftiau o'n profiadau cyllidebu diwedd blwyddyn gan bwysleisio pwysigrwydd yr angen am fwy o sicrwydd. Cytunwyd ar gam gweithredu i swyddogion gydweithio er mwyn ystyried a ellir gweithredu prosesau diwedd blwyddyn yn fwy effeithiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran yr eitem ynglŷn â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ffyniant Bro, manteisiais ar y cyfle i ailadrodd pryderon na ddylai'r papur groesi polisiâu datganoledig. Amlygais hefyd fod Cymru yn cael llawer llai o gyllid Ymchwil a Datblygu o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Yn sgil y trefniadau newydd, bydd swyddogaeth y Cadeirydd yn cylchdroi felly byddaf yn cadeirio'r cyfarfod nesaf. Nid yw dyddiad y cyfarfod wedi'i gadarnhau eto ond disgwylir iddo gael ei gynnal cyn gwyliau'r haf.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government